UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

## Canllawiau statudol i ddysgwyr 14 i 16

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 8 Mai 2024 i:

Is-adran Polisi Gwella Ysgolion a Chymwysterau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Dysgu.14-16.learning@llyw.cymru

Ydych chi'n gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

(i) Os felly, beth yw eich sefydliad? (Os na, ewch i (iii) isod)

| |
|---|
| **UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)** |

(ii) Beth yw eich prif rôl?

| |
|---|
| **Swyddog Polisi** |

(iii) Os nad ydych chi'n gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg, ym mha rinwedd yr hoffech chi ddarparu adborth?

| |
|---|
| **Fel undeb llafur yn cynrychioli'r gweithlu.** |

(iv) Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |

(v) Os ydych, nodwch pa sefydliad neu grŵp os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| **UCAC** |

**Cwestiwn 1** – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall eich rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed o fewn Cwricwlwm i Gymru?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 2** – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut y dylid defnyddio'r cynnig o gymwysterau i gefnogi cwricwlwm 14 i 16 i ddysgwyr o fewn Cwricwlwm i Gymru?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 3** – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut y dylai cynnig cwricwlwm 14 i 16 gael ei gynllunio?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 4** – I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn cynnwys digon o fanylder?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eu cael ar weithlu'r ysgolion, gan gynnwys unrhyw effaith y gallai ei chael ar lwyth gwaith.

**Rydym o’r farn y bydd y polisi a amlinellir yn y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn cael effaith sylweddol ar lwyth gwaith y gweithlu. Yn wir, gall esgor ar sefyllfa o bwysau**

**gwaith affwysol, yn enwedig wrth ystyried bod angen trawsnewid y ddarpariaeth a'r meddylfryd mewn amser byr iawn.**

**Ar lefel Uwch Dimau Arwain, bydd gofyn cynllunio'n fanwl, gan ystyried yn ofalus sut y caiff y cwricwlwm ei drefnu. Bydd y broses hon yn un fydd yn cymryd amser ac yn golygu cyfarfodydd a thrafodaethau cyson. Mae'r canllawiau yn nodi'r angen i fapio cyfleoedd o fewn y cwricwlwm (e.e. cyfleoedd i ystyried yr holl feysydd dysgu a phrofiad, sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau o holl elfennau gorfodol y cwricwlwm). Mae yna nifer o ofynion yn y canllawiau y bydd angen i ysgolion dalu sylw iddynt e.e. amser i ddysgwyr fyfyrio ar eu cynnydd, cyfle i ddysgwyr astudio'n annibynnol, gweithdrefnau gwerthuso a gwella ayb. Bydd angen i arweinwyr feddwl sut y bydd elfennau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith o fewn eu cyd-destun penodol hwy. Mae elfennau ymarferol i'w hystyried hefyd o ran y portffolios digidol (5.1.6). Pwy sy'n mynd i 'gefnogi dysgwyr i goladu'r wybodaeth [hon] mewn un lle digidol..'**

**Er y gall 4.2.9 leihau pwysau gwaith yn y pen draw, mae'r broses o 'archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth – gydag ysgolion a cholegau eraill...' hefyd yn mynd i fod yn broses a fydd yn cymryd amser ac egni. Bydd nifer o brotocolau a phwyntiau gweinyddu y bydd yn rhaid talu sylw gofalus iddynt.**

**Mae yma ofynion, nid yn unig i Uwch Dimau Arwain ond hefyd i Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad, Arweinwyr Pwnc ac athrawon ar bob lefel ac mae'n bwysig bod anghenion pawb ar bob lefel yn cael eu diwallu.**

**Mae hi'n hollbwysig bod amser digonol yn cael ei neilltuo ar gyfer arweinwyr ar bob lefel i wneud y gwaith cynllunio yn effeithiol, a hynny wrth iddynt hefyd orfod ymdopi gyda'r llwyth gwaith presennol, sydd yn hynod feichus, fel y mae. Hynny heb sôn am ystyried y newid pellgyrhaeddol i gymwysterau, mewn cyfnod hynod o fyr, wrth gwrs.**

**Mae angen sicrhau nid yn unig bod amser yn cael ei neilltuo ar gyfer gofynion staff ein hysgolion, ond hefyd fod hyfforddiant priodol ar gael i bawb, er mwyn sicrhau eglurder a chanllawiau clir wrth fynd i'r afael â'r gofynion newydd. Mae'n bwysig bod cysondeb wrth ddehongli'r canllawiau. Mae rhai datganiadau braidd yn amwys e.e. 3.2 'Er y bydd y dysgu a geir yn ystod y cyrsiau astudio hynny yn cael ei lywio gan ofynion y cymwysterau, dylai'r holl ddysgu o fewn Cwricwlwm i Gymru barhau i fod yn gyson â fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn unol â'r Cod cynnydd.'**

**Mae'r ffaith na fydd y newidiadau i gyd yn digwydd yr un pryd ac y bydd dwy don (Medi 2025 a Medi 2026), wrth gyflwyno'r newidiadau yn mynd i ychwanegu at y cymhlethdod i ysgolion. Mae rhedeg dwy system ochr yn ochr yn gallu ychwanegu at lwyth gwaith, yn enwedig wrth gofio fod angen cyfathrebu ac esbonio'r systemau i randdeiliaid e.e rhieni/gofalwyr.**

**Cwestiwn 6** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

**Mae geiriad y canllawiau yn pwysleisio y dylai'r cwricwlwm fod yn 'ddeniadol ac yn berthnasol' i ddysgwyr. Bydd angen sicrhau bod ysgolion yn ystyried pob dysgwr wrth geisio diwallu'r gofyn hwn. Dylai'r rhestr gwestiynau ar dudalen 5 gyfrannu at**

**gyflawni hyn. Wrth nodi y bydd y cymwysterau a gynigir o fewn y gyfres newydd hon yn 'ehangach', dylai hyn sicrhau fod anghenion mwy o ddysgwyr yn cael eu diwallu. Mae manylion paragraff 5.13.2 yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu diddordebau personol. Er bod y cyfarwyddiadau yn pwysleisio'r angen i ddiwallu anghenion amrywiol, mae'n bwysig bod hyn yn digwydd go iawn. Bydd angen bod yn wyliadwrus bod pob darpariaeth a phob dull o asesu yn sicrhau cyfartaledd cyfleoedd i ddisgyblion. Nid ydym am i ddisgyblion fod o dan anfantais oherwydd prinder adnoddau neu anallu i gael 'profiadau' ehangach i gyfoethogi eu hastudiaethau.**
**Os am fynnu, yn gywir, bod yr hawl i bob ddisgybl i gwricwlwm 'deniadol' a 'pherthnasol', yna dylid sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ddiwallu anghenion pob disgybl, ym mha sefydliad bynnag, lle bynnag y maent ac ym mha iaith bynnag.**

**Cwestiwn 7** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Canllawiau Dysgu 14 i 16 ar y Gymraeg ym Mlynyddoedd 10 ac 11? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

**Rydym yn croesawu'r ffaith fod y ddogfen yn nodi y dylai dysgwyr ddilyn cyrsiau 'priodol ac uchelgeisiol' yn y Gymraeg, cyrsiau a fydd yn dangos 'cynnydd llwyddiannus'. Mae'n hynod bwysig bod ysgolion yn glynu wrth hyn ac yn sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cyrsiau fydd yn eu herio ac yn arwain at gynyddu rhugldеr yn yr iaith. Rydym yn poeni rhywfaint am baragraff 5.4.3 3 'O ran pob dysgwr unigol, yr ysgolion fydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ar y cymwysterau llythrennedd mwyaf priodol ar gyfer pob dysgwr yn Gymraeg a Saesneg. Hwy yn y pen draw fydd yn gyfrifol am y penderfyniadau hynny, gan ystyried dewisiadau, dysgu blaenorol, dyheadau a llwybrau dysgwyr.' Gobeithiwn yn fawr na fydd ysgolion yn gweld hyn fel cyfle i lastwreiddio'r ddarpariaeth. Ar y llaw arall, rydym yn croesawu geiriad paragraff 5.5.1 'Rydym yn cynghori ysgolion yn gryf i ystyried sut y maent yn cynnig sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd addas a heriol yn eu sgiliau ar hyd continwwm y Gymraeg drwy gynyddu faint o gyfarwyddyd Cymraeg a roddir yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg eu hawdurdod lleol.' Tybiwn fod lle i gryfhau'r gosodiadau cadarnhaol sydd yn y ddogfen, gan sicrhau nad oes lle i unrhyw ysgol 'ddehongli' elfennau ynghylch y Gymraeg. Mae enghreifftiau yn y gorffennol o 'chwarae'r system', er mwyn ennill pwyntiau drwy sefyll cymhwyster anaddas (h.y. haws nag y dylid). Mae rhywun yn ofni y gallai geiriad paragraff 5.5.7 agor y drws i gamddefnydd o'r fath unwaith yn rhagor. Mae angen canllawiau pendant ar ysgolion ac ni ddylai disgyblion sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn y cynradd gael sefyll arholiadau sydd wedi eu llunio ar gyfer rhai sydd wedi derbyn eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Saesneg. Rhaid hefyd sicrhau fod hyn yn cael ei fonitro'n agos.**

**Yn yr ymgynghoriad ar Fil Addysg Gymraeg dywedwyd mai'r nod 'yw fod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus'. Yn fwy penodol, nodir lefel B2 yn Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd**

**(CEFR) fel yr isafswm. Nid oes unrhyw gyfeiriad at y CEFR na symud ar hyd y continwwm lefelau yn y ddogfen dan sylw.**

**Rydym yn poeni ychydig am gynnwys paragraff 5.5.4 a'r penderfyniad i gyflwyno dyfarniad integredig o ran Iaith a Llên, yn enwedig o ystyried na fydd modd i ddisgyblion gael graddau a fydd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng eu cyrhaeddiad mewn iaith a llenyddiaeth.**

**Pryderwn y bydd y Gymraeg yn derbyn triniaeth llai ffafriol yn gyffredinol, gan y bydd darparu'r hyn sydd yn ddisgwyliedig am fod yn her i ysgolion llai, ac i ysgolion dwyieithog yn benodol. Ni fydd cyllid presennol ysgolion Cymraeg/Dwyieithog yn caniatáu i'r Cwricwlwm gael ei gyflwyno'n llawn, yn unol â'r disgwyl. Mae pryder na fydd modd cynnig yr ehangder ddisgwyliedig, a phryder pellach y bydd ysgolion dwyieithog, i geisio diwallu'r anghenion yn troi at gynnig profiadau israddol yn y Gymraeg gan gyflwyno agweddau'n ddwyieithog, sydd yn ôl pob tystiolaeth yn ffafrio'r Saesneg.**

**Cwestiwn 8** – Yn eich barn chi, a allai'r Canllawiau Dysgu 14 i 16 gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Gallai'r canllawiau gryfhau statws y Gymraeg, pe bai'n nodi'n gliriach y dylid gweld disgyblion yn adeiladau ar eu cyrhaeddiad yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae disgyblion yn dilyn eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly yn gwbl rhugl yn y Gymraeg erbyn iddynt adael y cyfnod cynradd. Mae nifer o'r disgyblion hynny yn colli eu gafael ar y Gymraeg wrth iddynt drosglwyddo i'r uwchradd. Mae angen sicrhau nad yw hyn yn digwydd a bod disgyblion yn parhau i wneud cynnydd o ran eu sgiliau ieithyddol. Byddai grymuso datganiadau o ran hyn yn cael effeithiau positif ar y Gymraeg.**
**Mae angen nodi hefyd faint o amser y dylid ei neilltuo i ysgolion astudio'r Gymraeg. Rhaid sicrhau bod disgyblion ym mhob ysgol – cyfrwng Cymraeg a Saesneg – yn treulio amser tebyg yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg. Dyna'r unig ffordd i sicrhau cynnydd ar hyd y continwwm ieithyddol.**
**Rydym o'r farn hefyd fod angen mwy o gysylltiad rhwng y ddogfen hon a'r cynigion arfaethedig ym Mil Addysg y Gymraeg. Dim ond drwy gael canllawiau cadarn, diamwys y mae sicrhau tegwch.**

**Mae angen cysylltu llwybr cynnydd disgyblion mewn ysgolion a'r nodau sydd wedi eu gosod gan awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Strategol (CSGA).**

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

**Teimlwn fod angen amser i allu gweithredu'r gofynion yn effeithiol. Mae pryderon gennym ynghylch yr amseriad – nid ydym yn tybio fod yr amserlen bresennol yn caniatáu amser digonol i ymgorffori'r newid diwylliant angenrheidiol sydd wrth wraidd y newidiadau hyn, nac i gynllunio a pharatoi mewn modd a fydd yn rhoi'r**

**chwarae teg dyledus i'r cymwysterau newydd. Nid ar chwarae bach y mae gweithredu newid fel hyn - mae angen amser ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda rhieni, darpar gyflogwyr a sicrhau bod y staff yn gallu cynllunio, paratoi a derbyn hyfforddiant.**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐